Adroddiad Blynyddol 2024-2025

Annual Report 2024-2025

Dyfarnwyd grant o £3,000 i Dreigiau'r Dyffryn, grŵp cymunedol lleol, yn ystod y flwyddyn
Dreigiau'r Dyffryn, a local community group, was awarded a £3,000 grant during the year

Elusen Ogwen	**Elusen Ogwen**
Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr ar gyfer y deuddeg mis yn diweddu 31 Mawrth 2025	Trustee Annual Report for the twelve months ended 31st March 2025
Math o Elusen a Rhif Elusen	**Type of Charity & Charity Number**
Sefydliad Corfforedig Elusennol (model Sylfaen) Rhif: 1192642	Charitable Incorporated Organisation (Foundation model) No: 1192642
Cyfansoddiad: 4 Rhagfyr 2020	Constitution: 4th December 2020
Ymddiriedolwyr	**Trustees**
Lowri Williams (Cadeirydd) Nigel Beidas (Trysorydd) Brian Jones Caren Brown Dafydd Roberts Elin Sanderson	Lowri Williams (Chair) Nigel Beidas (Treasurer) Brian Jones Caren Brown Dafydd Roberts Elin Sanderson
Mae'r ymddiriedolwyr yn wirfoddolwyr, a chânt eu penodi am gyfnodau o naill ai dwy neu dair blynedd. Caiff cais i fod yn ymddiriedolwr ei ystyried a'i benderfynu drwy bleidlais gan ymddiriedolwyr presennol. Ni fu unrhyw newidiadau yn ystod y flwyddyn.	Trustees are volunteers and are appointed for periods of either two or three years. An application to be a trustee is considered and voted on by existing trustees. There were no changes in the Trustees during the year.
Nid oes gan yr elusen unrhyw weithwyr na gwirfoddolwyr eraill. Ni dderbyniodd unrhyw Ymddiriedolwyr unrhyw dâl yn ystod y flwyddyn, ac ni ad-dalwyd unrhyw dreuliau	The charity has no employees or other volunteers. No Trustees received any remuneration during the year, and no expenses were reimbursed.
Cyfeiriad Cofrestredig	**Registered Address**
Cilwern 14 Ffordd Gerlan Bethesda LL57 3ST	Cilwern 14 Ffordd Gerlan Bethesda LL57 3ST
Bancwyr	**Bankers**
Banc NatWest CCC	Natwest Bank PLC
Cyfrifwyr	**Accountants**
Crestmere Chartered Certified Accountants, Bangor	Crestmere Chartered Certified Accountants, Bangor
Cyfeiriad e-bost elusenogwen@gmail.com	**Contact Email** elusenogwen@gmail.com

Amcanion yr Elusen Mae Elusen Ogwen yn cefnogi cynlluniau fydd yn gwella ansawdd bywyd trigolion, grwpiau a chymunedau yn Nyffryn Ogwen. Mae'n gwneud hynny drwy ddosbarthu rhan o'r elw o gynlluniau ynni Ynni Ogwen. Mae grwpiau cymunedol yn gallu ymgeisio am gefnogaeth ar gyfer prosiectau fydd o les i drigolion Dyffryn Ogwen. Mae Elusen Ogwen yn gallu cyfrannu at brosiectau cyfalaf a refeniw sy'n bodloni un neu fwy o'r amcanion canlynol: • Lleihau tlodi tanwydd a thlodi cymdeithasol • Datblygu prosiectau ynni adnewyddadwy • Hybu trafnidiaeth gynaliadwy a theithio actif • Arbed ynni • Cysylltu unigolion o bob oed â'r amgylchedd • Lleihau gwastraff • Annog unigolion i wirfoddoli mewn prosiectau amgylcheddol yn eu cymunedau • Gwella ansawdd yr amgylchedd lleol • Cynyddu cynhyrchu / prynu cynnyrch bwyd lleol	**Charity Objectives** Elusen Ogwen supports initiatives that will improve the quality of life of the residents, groups and communities of Dyffryn Ogwen. It does so by distributing some of the profits from Ynni Ogwen's energy schemes. Community groups can apply for support for projects that will benefit the residents of Dyffryn Ogwen. Elusen Ogwen can contribute to capital and revenue projects that meet one or more of the following objectives: • Reduce fuel and social poverty • Develop renewable energy projects • Promote sustainable transport and active travel • Save energy • Connect individuals of all ages to the environment • Minimize waste • Encourage individuals to volunteer in environmental projects in their communities • Improve the quality of the local environment • Increase production / purchase of local food products
Datganiad Risg Mae'r Ymddiriedolwyr yn archwilio'r risgiau a wynebir gan Elusen Ogwen ac effaith bosibl y risgiau hyn ar weithrediad yr Elusen. Cynhelir yr asesiad risg gan y Trysorydd a chaiff ei gyflwyno i'r Ymddiriedolwyr bob blwyddyn fel y gellir rhoi polisïau a gweithdrefnau yn eu lle i sicrhau bod risgiau'n cael eu cadw i lefel dderbyniol.	**Risk Statement** The Trustees examine the risks faced by Elusen Ogwen and the potential impact of these risks on the operation of the Charity. The risk assessment is undertaken by the Treasurer and presented to the Trustees every year so that policies and procedures can be put in place to ensure risks are kept to an acceptable level.
Adroddiad ar gyfer y 12 mis yn diweddu 31 Mawrth 2025 Cafodd Elusen Ogwen flwyddyn lwyddiannus, gan ddosbarthu grantiau gwerth cyfanswm o £25,769, o gymharu â £17,446 yn y flwyddyn ariannol flaenorol, cynnydd o 47%. Ers cael ei lansio ddiwedd 2020 mae'r elusen wedi dyrannu dros £67,000 mewn grantiau i grwpiau lleol. Nid oeddem wedi disgwyl cael cyllid gan Ynni Ogwen eleni oherwydd maint eu rhodd yn 2023–24, ond yn wyneb y galw am grantiau, rhoddwyd £15,000 yn ychwanegol i ni yn ystod y flwyddyn, ac rydym yn ddiolchgar iawn am y rhodd hon.	**Report on the 12 months ending 31st March 2025** Elusen Ogwen had a successful year, distributing grants totalling £25,769, compared to £17,446 in the previous financial year, a rise of 47%. Since its launch at the end of 2020 the charity has provided over £67,000 in grants to 23 local groups. We had not expected to receive funding from Ynni Ogwen this year due to the size of their donation in 2023-24, but in the light of demand for grants, they provided us with an additional £15,000 during the year, for which we are very grateful.

Fe wnaethom ariannu 11 o sefydliadau gwahanol yn ystod y flwyddyn. Mae'r grwpiau canlynol wedi elwa o'n grantiau:	We funded 11 different organisations during the year. The following groups benefited from our grants:
Dyfarnwyd grant o £2,000 i **Neuadd Goffa Mynydd Llandygai** i fynd tuag at gost batri fel rhan o'r gwaith o osod paneli solar newydd.	**Mynydd Llandygai Memorial Hall** were awarded a grant of £2,000 to go towards the cost of a battery as part of a new solar panel installation.
Cafodd **Asynnod Eryri** £3,000 tuag at gost canolfan ymwelwyr newydd.	**Snowdonia Donkeys** received £3,000 towards the cost of a new visitors centre.
Cafodd **Dreigiau'r Dyffryn**, grŵp gymnasteg lleol, £3,000 i helpu i dalu am oleuadau LED newydd. Gyda chymorth Elusen Ogwen, mae'r grŵp wedi newid ei holl oleuadau dros y tair blynedd diwethaf, gan arwain at ostyngiad o 70% yn yr ynni a ddefnyddir.	**Dreigiau'r Dyffryn**, a local gymnastic group, received £3,000 to help pay for new LED lighting. With the help of Elusen Ogwen, the group have completely changed their lighting over the last three years, resulting in a reduction of 70% in the energy used.
Cafodd **Canolfan Gymunedol Tregarth** grant o £3,000 i'w galluogi i wneud gwelliannau i'r ffensys a'r llwybrau o amgylch y ganolfan.	**Tregarth Community Centre** received a grant of £3,000 to enable them to make improvements to the fencing and paths around the centre.
Enillodd **Growing for Change** grant o £3,000 tuag at gost tŷ gwydr newydd.	**Growing For Change** were successful in getting a grant for £3,000 towards the cost of a new greenhouse.
Fe wnaethom hefyd roi cyllid i lawer o grwpiau er mwyn iddynt gynnig gweithgareddau haf fforddiadwy i blant. Cafodd **Parc Moch, Beics Ogwen a Phartneriaeth Ogwen** gyfanswm o £6,830 yn ystod y flwyddyn.	We also provided funding to a number of groups in order for them to provide affordable summer activities for children. **Parc Moch, Beics Ogwen and Partneriaeth Ogwen** received a total of £6,830 during the year.
Cafodd **Clwb Bowlio a Chriced Bethesda** £2,721 i helpu i dalu am danc dŵr newydd a goleuadau solar.	**Bethesda Bowling and Cricket Club** received £2,721 to help pay for a new water tank and solar lighting.
Cafodd **Cyfeillion Ysgol Llanllechid** grant bychan i'w galluogi i brynu offer ailgylchadwy i'w defnyddio mewn digwyddiadau a drefnir gan yr ysgol.	**Cyfeillion Ysgol Llanllechid** received a small grant to enable them to buy recyclable utensils, for use at events organised by the school.
Yn olaf, talodd Elusen Ogwen am fwrdd gwybodaeth newydd ym Methesda fel rhan o'r **Llwybr Llechi**.	Finally, we paid for a new information board in Bethesda as part of the **Llwybyr Llechi Slate Trail**
_____	_____
Cadwyd costau gweithredu yn isel iawn ar £423 ac fe'u hariannwyd i raddau helaeth gan log o £335. Cyfanswm incwm yr elusen oedd £15,335, a gwariwyd £26,193.	Operating expenses were kept very low at £423 and were financed to a large extent by interest received of £335. In total the charity had income of £15,335 and expenditure of £26,193
Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol roedd gan yr elusen £20,036 o gronfeydd wrth gefn, i lawr o	The charity ended the financial year with reserves of £20,036, down from £30,894 at the end of the

£30,894 ar ddiwedd y flwyddyn flaenorol ac yn unol â'n polisi o leihau ein cronfeydd wrth gefn. Rydym yn dal i roi cyhoeddusrwydd i waith yr elusen yn y papurau lleol ac ar y cyfryngau cymdeithasol, ac edrychwn ymlaen at gynnig grantiau pellach yn y flwyddyn ariannol nesaf.	previous year and in line with our policy of reducing reserves. We continue to publicise the work of the charity through local papers and social media and we look forward to providing further grants in the coming financial year.
Polisi Cronfeydd wrth Gefn Mae gan yr elusen bolisi o gynnal o leiaf £750 yn gronfeydd wrth gefn er mwyn gwastatau amrywiadau mewn incwm a gwariant yn ystod y flwyddyn ariannol. Bydd arian wrth gefn ychwanegol yn cael ei gadw pan fyddwn wedi cytuno i ariannu prosiectau dros fwy na blwyddyn. Byddwn yn parhau i adolygu ein polisi dyfarnu grantiau er mwyn sicrhau nad yw cronfeydd wrth gefn yn cronni dros amser.	**Reserves Policy** The charity has a policy of maintaining at least £750 by way of reserves in order to even out fluctuations in income and expenditure during the financial year. Additional reserves will be held where we have agreed to fund projects over more than one year. We will continue to keep our grant making policy under review to ensure that reserves do not build up over time.
Datganiad Budd Cyhoeddus Mae'r ymddiriedolwyr yn cadarnhau eu bod wedi ystyried yr arweiniad a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Elusennau ynghylch budd cyhoeddus. Cymeradwywyd gan yr Ymddiriedolwyr 29 Ebrill 2025	**Public Benefit Statement** The trustees confirm that they have had regard to the guidance issued by the Charity Commission on public benefit. Approved by the Trustees 29th April 2025

Enw/Name	**Llofnod/Signature**	**Swydd/Position**	**Dyddiad/Date**
Nigel Beidas		Trysorydd / Treasurer	

Cyfrifon ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31/03/2025

Accounts for the twelve months ending 31/03/2025

Derbyniadau		**Receipts**
Llog	£335.35	Interest
Ynni Ogwen	£15,000.00	
Cyfanswm Derbyniadau	**£15,335.35**	**Total Receipts**
Costau		**Costs**
Gwefan	£17.99	Domain Name Registration
Yswiriant	£105.84	Insurance
Cyfrifydd	£300.00	Accountant
Cyfanswm Costau	***£423.83***	***Total Costs***
Grantiau a ddyfarnwyd		**Grants made**
Canolfan Tregarth	£3,000.00	Tregarth Community Centre
Parc Coed Moch	£2,985.00	Parc Coed Moch
Clwb Criced a Bowlio Bethesda	£2,721.25	Bethesda Cricket & Bowls Club
Partneriaeth Ogwen	£970.00	Partneriaeth Ogwen
Dreigiau'r Dyffryn	£3,000.00	Dreigiau'r Dyffryn
Beics Ogwen	£2,875.00	Ogwen Bikes
Gyfeillion Ysgol Llanllechid	£468.28	Friends of Llanllechid School
Growing For Change	£3,000.00	Growing For Change
Llwybr Llechi Eryri	£1,750.00	Snowdonia Slate Trail
Asynnod Eryri	£3,000.00	Snowdonia Donkeys
Neuadd Goffa Mynydd Llandygai	£2,000.00	Mynydd Llandygai Memorial Hall
Cyfanswm Grantiau	***£25,769.53***	***Total Grants***
Cyfanswm Gwariant	**£26,193.36**	**Total Expenditure**
Derbyniadau llai Taliadau	**-£10,858.01**	**Receipts minus Payments**
Arian yn y banc 01/04/2024	£30,894.76	Cash at the bank 01/04/2024
Arian yn y banc 31/03/2025	£20,036.75	Cash at the bank 31/03/2025
Datganiad o Asedau a Dyledion ar Ddiwedd y Flwyddyn		**Statement of Assets and Liabilities at Year End**
Arian yn y banc	£20,036.75	Cash at the bank
Noder: Nid oedd gan yr Elusen unrhyw ddyledion ar ddiwedd y flwyddyn ac nid yw wedi gwneud unrhyw warantau a allai arwain at ddyledion yn y dyfodol.		Notes: The Charity had no debts at the year end and has not made any guarantees which could lead to future liablities.